# Canllawiau Ofcom ar asesu effaith

Mae'r canllawiau drafft hyn wedi'u disodli gan ganllawiau newydd a gyhoeddwyd 19 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mawrth 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Beth yw asesiad effaith? 2

3. Pryd fydd Ofcom yn gwneud asesiad effaith? 6

4. Datblygu'r asesiad effaith 8

5. Dyletswyddau statudol eraill i asesu effeithiau 16

# 1. Trosolwg

Mae'r canllawiau drafft hyn wedi'u disodli gan ganllawiau newydd a gyhoeddwyd 19 Gorffennaf 2023.

1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr annibynnol y sector cyfathrebiadau. Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu, radio, ar-lein a fideo ar-alw, telegyfathrebiadau symudol a llinell sefydlog, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau diwifr yn eu defnyddio.

1.2 Rydym yn gwneud amrywiaeth o ymyriadau polisi er budd dinasyddion a defnyddwyr drwy hyrwyddo cystadleuaeth, lle bo hynny'n briodol. Gall ein hymyriadau amrywio o fonitro ac ymgysylltu anffurfiol i ofynion cyfreithiol rwymol a chamau gorfodi.

1.3 Mae gennym gyfres o egwyddorion rheoleiddio cyffredinol i arwain ein ffordd o weithredu, gan gynnwys ein bod:

a) yn ceisio sicrhau y bydd ein hymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau; ac

b) bob amser yn ceisio defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion polisi.

1.4 Rydym yn cydnabod bod y penderfyniadau rydym yn eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Felly, mae'n bwysig i ni feddwl yn ofalus cyn penderfynu a fyddai ymyriad polisi penodol yn briodol.

1.5 Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i egluro'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud.

1.6 Mae'r canllawiau hyn yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol o ran sut rydym yn asesu ac yn cyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig. Mae'n diweddaru ein canllawiau blaenorol i adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol newydd yn ogystal ag arferion gorau a phrofiad.

# 2. Beth yw asesiad effaith?

**Mae asesiad effaith yn broses strwythuredig ar gyfer ystyried effeithiau posibl ein penderfyniadau**

## Cyflwyniad

2.1 Yn Ofcom, rydym yn defnyddio ein cynllun gwaith blynyddol i nodi'r hyn rydym yn disgwyl ei gyflawni dros y flwyddyn. Er mwyn cyflawni ein hamcanion, rydym yn gwneud ystod eang o benderfyniadau polisi er mwyn cyflawni ein dyletswyddau. Mae'r rhain yn cynnwys ein prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, pan fo'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth,[1] a hefyd ein dyletswyddau sector-benodol perthnasol.[2]

2.2 Mae ein penderfyniadau'n cynnwys amrywiaeth eang o ffurfiau: gallant effeithio ar sector cyfan, fel pan fyddwn yn gosod rhwymedigaethau ar bob darlledwr o ran sut y dylent weithredu; gallant effeithio ar un gweithredwr yn unig mewn sector, fel y rhwymedigaethau rydym yn eu gosod ar Openreach neu'r Post Brenhinol; gallant gynnwys ymyriadau 'meddalach', fel pan fyddwn yn cyhoeddi codau ymarfer gwirfoddol; gallant ddiffinio marchnadoedd fel trwyddedau arwerthiant i ddefnyddio bandiau penodol o sbectrwm; neu gallant gynnwys mwy o newidiadau, fel pan fyddwn yn amrywio'r amodau yn y trwyddedau hynny.

2.3 Ac ystyried ehangder ac amrywiaeth ein penderfyniadau, mae deall yr effeithiau posibl y gallwn eu creu cyn i ni weithredu yn arbennig o bwysig. Mae asesiad effaith yn broses strwythuredig i ystyried yr effeithiau posibl hyn. Rydym yn eu hystyried drwy gydol prosiect ac yn atgyfnerthu ein rhesymeg i gyflwyno i randdeiliaid mewn ymgynghoriad a datganiad. Gall ein dadansoddiad fod yn feintiol, gan gymhwyso ffigurau i'r gwahanol gostau a manteision, cymryd golwg ansoddol ar y gwahanol effeithiau, neu ddefnyddio cymysgedd o'r ddau.

2.4 Weithiau mae deddfwriaeth yn gofyn i ni ymyrryd, ac mae'r Llywodraeth eisoes wedi asesu effaith yr ymyriad hwnnw. Mewn achosion eraill, gall deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu marchnad benodol a phenderfynu a ddylid ymyrryd ai peidio. Neu efallai y byddwn yn dod o hyd i farchnad nad yw'n gweithio'n dda yn ein barn ni, a byddwn yn ystyried ymyrryd er mwyn cyflawni ein hamcanion.

2.5 Efallai y byddwn yn defnyddio asesiadau effaith lle mae gennym ddisgresiwn ynghylch a ddylid ymyrryd a sut i ymyrryd. Efallai y byddwn yn eu defnyddio fel arf i'n helpu i benderfynu pryd i ymyrryd ac, os felly, beth yw'r ffordd orau o gyflawni ein hamcanion.

2.6 Mae Adran 3 isod yn nodi ein rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud ag asesiadau effaith, gan gynnwys y math o benderfyniadau na allwn gynnal un ar eu cyfer.

---

[1]Mae Adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf") yn nodi ein prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yng nghyswllt materion cyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.
[2] Rydym yn trafod y dyletswyddau sector-benodol hyn yn fanylach ym mharagraffau [...] isod.

## Rôl asesiadau effaith yn ein penderfyniadau polisi

2.7 Mae asesiadau effaith yn chwarae rhan bwysig yn ein penderfyniadau polisi:

a) Maent yn ein helpu i lunio cynigion polisi a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â chynnig penodol ai peidio;

b) Maent yn helpu rhanddeiliaid i ddeall y dystiolaeth a'r rhesymeg y tu ôl i gynnig penodol ac yn rhoi sail iddynt ymateb gyda'u tystiolaeth a'u safbwyntiau eu hunain;

c) Maent yn ein helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur, a'n bod yn gwneud y penderfyniadau gorau i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr;[3] a

d) Maent yn ein helpu i sicrhau bod ein proses gwneud penderfyniadau yn dryloyw.[4]

2.8 Er mwyn gwneud penderfyniadau polisi da, mae angen i ni fod yn glir ynghylch yr hyn rydym am ei gyflawni, beth rydym yn disgwyl i'r effaith fod, ac wedyn deall beth ddigwyddodd yn ymarferol.

2.9 Fel llunwyr polisïau, rydym yn aml yn cydbwyso llawer o ffactorau wrth benderfynu ar y llwybr gorau i gyflawni ein hamcanion. Yn gyffredinol, mae ein proses o lunio polisïau yn cynnwys nodi amrywiaeth o randdeiliaid y gallai penderfyniad effeithio arnynt (gan gynnwys defnyddwyr agored i niwed a busnesau bach), ac amrywiaeth o effeithiau gwahanol, o niwed i ddefnyddwyr i bryderon ynghylch cystadleuaeth a buddsoddi.

2.10 Byddwn yn dechrau meddwl am effaith bosibl ymyriad polisi yng nghamau cynnar prosiect. Bydd hyn yn ein helpu i lunio cynnig polisi o ran a ydym am ymyrryd a sut y byddwn am ymyrryd, gan ystyried y fframwaith cyfreithiol perthnasol. Byddwn yn parhau i ystyried ac adolygu effeithiau posibl drwy gydol prosiect a, lle bo'n briodol, yn diwygio ein hasesiad o'r effaith wrth i'n ffordd o feddwl fynd rhagddi. Mae'r holl waith hwn wedi'i gyfuno yn yr ymgynghoriad a'r datganiad. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau gorau i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

2.11 Bydd ein dogfennau ymgynghori a llunio polisïau yn egluro pam ein bod yn ystyried neu'n cynnig gwneud dewisiadau penodol. Mae asesiad effaith yn rhan bwysig o'r broses ymgynghori hon drwy nodi'r effeithiau (o ran unrhyw gostau a manteision) rydym yn rhagweld y bydd cynnig yn eu cael ar wahanol randdeiliaid, a, lle bo'n briodol, sut mae marchnad yn gweithio. Bydd ein hymgynghoriad hefyd yn rhoi digon o fanylion i randdeiliaid er mwyn iddynt allu ymateb. Drwy wneud hyn, rydym yn sicrhau bod modd craffu ar yr asesiad effaith a'i addasu fel y bo'n briodol.

2.12 Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyn gwneud ein penderfyniad ar sail yr holl dystiolaeth a'r hyn sydd, yn ein barn ni, y ffordd fwyaf cymesur a lleiaf ymwthiol o gyflawni ein hamcanion. Bydd y penderfyniad rydym yn ei wneud hefyd yr un rydym yn ei

[3] Mae ein prif ddyletswydd wedi'i nodi yn adran 3 y Ddeddf. Mae Adran 3(3)(a) y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'n holl weithgareddau rheoleiddio fod yn *"gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu at achosion lle mae angen gweithredu yn unig".*

[4]Mae Adran 3(3)(a) y Ddeddf yn mynnu bod ein holl weithgareddau rheoleiddio yn "*dryloyw*".

ystyried sydd fwyaf cydnaws ag unrhyw ddyletswyddau sector-benodol perthnasol a'n prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

2.13 Byddwn yn cyflwyno ein penderfyniad terfynol mewn datganiad yn dilyn yr ymgynghoriad a fydd yn egluro ein rhesymau dros wneud ein penderfyniad, gan gynnwys unrhyw addasiadau rydym wedi'u gwneud i'n hasesiad o effaith.

2.14 Drwy nodi beth rydym yn disgwyl y dylai polisi ei gyflawni a pha effeithiau y gallai ei gael, mae'n haws i ni fonitro a gwerthuso ein penderfyniadau ar ôl hynny. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall effaith wirioneddol ein penderfyniadau lle rydym yn credu bod hyn yn debygol o fod yn fanteisiol. Dylai gwerthuso a myfyrio ein helpu i wneud penderfyniadau polisi gwell wrth i ni ddysgu beth wnaeth weithio yn ôl y disgwyl a beth oedd ein disgwyliadau.

**Rhaid i asesiad effaith ystyried manteision, costau a risgiau'r polisi**

## Ffurf a chynnwys asesiad effaith

2.15 Fel yr eglurwyd uchod, byddwn yn ystyried ac yn adolygu effeithiau posibl ymyriad polisi drwy gydol prosiect. Byddwn yn penderfynu ar ffurf a chynnwys priodol asesiad effaith fesul achos. Bydd yn dibynnu ar natur yr ymyriad polisi rydym yn ei ystyried, ein rhwymedigaethau statudol perthnasol, a'r hyn rydym yn ei ystyried yn gymesur yn yr amgylchiadau.

2.16 Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol[5]. I gyflawni'r ddyletswydd hon, bydd asesiad effaith fel arfer:

- yn nodi'r canlyniad yr ydym am ei gyflawni, gan gydbwyso nifer o amcanion mewn rhai achosion;
- nodi effeithiau polisi ar fuddiannau grwpiau penodol o ddefnyddwyr, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill;
- nodi unrhyw effeithiau y gallai eu cael ar gystadleuaeth neu ar y farchnad ehangach;
- nodi a, lle bo'n briodol, mesur y costau a'r manteision rydym yn disgwyl i'r polisi eu cael;
- asesu prif risgiau posibl y polisi; a lle bo hynny'n briodol
- ystyried sut y gellid monitro neu werthuso llwyddiant y polisi.

[5] Gweler adran 3(1) o'r Ddeddf. Mae Adran 3(4) y Ddeddf yn egluro bod yn rhaid i ni ystyried yr amrywiol faterion a nodir yn yr is-adran honno wrth gyflawni ein dyletswyddau, sy'n ymddangos yn berthnasol i ni yn yr amgylchiadau.

2.17 Wrth benderfynu ar gynnwys priodol asesiad effaith, byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ddyletswyddau sector-benodol sy'n berthnasol yn ein barn ni.[6] Mae rhagor o wybodaeth am gynnwys asesiad effaith ar gael yn Adran 4 isod.

2.18 Bydd y ffordd rydym yn cyflwyno'r asesiad effaith hefyd yn amrywio gan ddibynnu ar yr hyn sy'n briodol yn yr amgylchiadau yn ein barn ni. Er enghraifft:

a) gan fod y materion a ystyrir mewn asesiad effaith yn sylfaenol i'r cynnig polisi, gall ymgynghoriad integreiddio'r asesiad effaith drwy gydol y ddogfen. Er enghraifft, efallai y bydd ymgynghoriad mawr gyda llawer o gynigion polisi yn nodi'r dystiolaeth ar gyfer pob cynnig polisi ar wahân wedi'i ddilyn gan ein hasesiad o'i effaith a'r rhesymeg dros ein cynnig;

b) mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn penderfynu cyhoeddi'r asesiad o'r effaith, neu ddadansoddiad technegol a gynhaliwyd fel rhan ohono, fel adran ar wahân mewn ymgynghoriad neu fel atodiad;

c) mewn achosion eraill, mae strwythur ein dadansoddiad yn cael ei ddiffinio gan ddeddfwriaeth ac yma byddai'r asesiad effaith yn cael ei ymgorffori yn y fframwaith hwnnw.[7] Yn yr achosion hyn, gall cyflwyno asesiad effaith fod yn fwy cyfyngedig neu'n wahanol i'r ffordd rydym yn cyflwyno asesiadau effaith mewn achosion eraill.

2.19 Ym mha sefyllfa bynnag, bydd ein dogfennau ymgynghori fel arfer yn cynnwys adran o'r enw "Asesiad o'r Effaith" (neu debyg) a fydd naill ai'n crynhoi canlyniadau ein hasesiad o'r effaith neu'n nodi lle yn yr ymgynghoriad rydym wedi cyhoeddi canlyniadau ein hasesiad o'r effaith. Pan fydd ein hasesiad o effaith wedi cael ei ymgorffori drwy gydol dogfen, efallai y byddwn hefyd yn darparu trosolwg cyfunol o'r effaith rydym yn disgwyl i bolisi ei chael. Er na fyddai'r crynodeb hwn o reidrwydd yn cynnwys manylion ein rhesymeg yn llawn, gallai helpu rhanddeiliaid i lywio drwy ddogfen hir a deall lle i ganolbwyntio eu sylw.

[6] Mae enghreifftiau'n cynnwys (a) unrhyw faterion sy'n benodol i'r sector a nodir yn adran 3(2) y Ddeddf; (b) ein dyletswyddau yn adran 3 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006; (c) ein dyletswyddau yn adran 29 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011; (d) ein dyletswyddau yng nghyswllt radio lleol yn adran 314 y Ddeddf; (e) ein dyletswydd yn ymwneud â rhifo yn adran 63 y Ddeddf; a (f) ein dyletswyddau yn Erthygl 45(2) o Siarter y BBC. [to review list]

[7] Rydym yn nodi enghreifftiau lle mae deddfwriaeth yn nodi gofynion penodol ar gyfer pryd a sut mae'n rhaid i ni gynnal asesiadau effaith ym mharagraff [...] isod.

# 3. Pryd fydd Ofcom yn gwneud asesiad effaith?

3.1 Mae asesiadau effaith yn un adnodd yn ein proses o lunio polisïau. Mae'r adran hon yn nodi ein rhwymedigaethau cyfreithiol yng nghyswllt asesiadau effaith, ac egwyddorion cyffredinol eu defnyddio yn Ofcom.

| **Byddwn yn cynnal asesiad effaith yng nghyswllt mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi** |
|---|

## Ein rhwymedigaeth gyffredinol i asesu effeithiau

3.2 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf") yn dweud ei bod yn rhaid i Ofcom gynnal a chyhoeddi asesiad effaith:

a) lle rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth sy'n gysylltiedig â chyflawni ein swyddogaethau;

b) lle mae'n ymddangos i ni fod y cynnig yn bwysig;

c) oni bai ei bod yn ymddangos i Ofcom bod pa mor frys yw'r mater yn ei gwneud yn anymarferol neu'n amhriodol i ni gydymffurfio.

3.3 Dywed y Ddeddf fod cynnig yn "bwysig" os byddai'n debygol o wneud un neu ragor o'r canlynol:

a) cynnwys newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom;

b) cael effaith sylweddol ar bobl sy'n cynnal busnesau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd y mae Ofcom yn eu rheoleiddio;

c) yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd yn y DU neu yn rhan o'r DU.

3.4 Gan dybio nad yw brys y mater yn ei gwneud yn anymarferol nac yn amhriodol i ni gydymffurfio, rhaid i ni gynnal asesiad effaith os ydym yn gwneud "cynnig pwysig". Yr eithriad yw os credwn fod hyn yn ddiangen, ac os felly rhaid i ni gyhoeddi datganiad yn dweud pam. Gallai enghraifft lle byddai asesiad effaith diangen gynnwys sefyllfa lle mae asesiad effaith yn ymwneud â'r un mater wedi cael ei lunio'n gymharol ddiweddar.

## Pryd na fyddwn yn cynnal asesiadau effaith

3.5 Mae'r rhwymedigaeth gyffredinol i gynnal asesiadau effaith sydd yn y Ddeddf yn eang a gall p'un ai a yw cynnig yn "bwysig" o fewn ystyr y Ddeddf neu beidio fod yn agored i'w drafod. Fodd bynnag, oherwydd bod asesiadau effaith yn rhan o waith llunio polisïau da, rydym yn disgwyl eu cyflawni yng nghyswllt mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi. Er hynny, mae rhai achosion lle na fydd angen asesiad effaith, fel rheol gyffredinol. Yn gyffredinol, ni fyddwn yn cynnal asesiadau effaith:

a) pan fydd deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd mewn ffordd benodol a bod asesiad effaith wedi'i gynnal cyn i'r ddeddfwriaeth honno gael ei chyflwyno (er y gallwn gynnal asesiad effaith lle mae gennym ddisgresiwn ynghylch y ffordd yr ydym yn ymyrryd);

b) wrth gynnal ymchwiliadau, oherwydd bydd yr hyn sy'n cael ei orfodi wedi cael ei roi ar waith o ganlyniad i asesiad effaith a/neu ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth;[8]

c) wrth ddatrys anghydfod, pan fo'r anghydfod yn ymwneud â rheoleiddio sydd wedi'i roi ar waith o ganlyniad i asesiad effaith a/neu ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth; [9]

d) wrth gyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â sut byddwn yn cynnal ymchwiliadau o'r fath. Yn gyffredinol, bydd canllawiau o'r fath yn ymhelaethu ar sut y byddwn yn cyflawni'r rhwymedigaethau sy'n cael eu creu ar ôl cynnal asesiad o'r effaith.

## Rhwymedigaethau sy'n benodol i'r sector

3.6 Mewn rhai achosion, efallai y bydd gennym rwymedigaethau statudol sy'n gosod gofynion penodol sy'n ymwneud â phryd neu sut y mae'n rhaid i ni gynnal asesiadau effaith. Er enghraifft:

a) Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn ychwanegu isadrannau 4A a 4B newydd yn adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac yn mynnu ein bod yn ystyried effaith debygol ein hymyriadau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau diogelwch ar-lein ar fusnesau bach a microfusnesau yn benodol;

b) Mae Adran 107 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu ein bod yn ystyried y materion penodol sydd wedi'u nodi yn yr adran honno cyn rhoi pwerau o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig i ddarparwr rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig;

c) Mae Adran 106 o Ddeddf Darlledu 1990 yn mynnu ein bod yn ystyried y materion penodol a nodir yn yr adran honno sy'n ymwneud â chymeriad a darpariaeth gwasanaethau radio cenedlaethol a lleol wrth ystyried trwyddedu gwasanaethau o'r fath.

3.7 Fel yr esboniwyd ym mharagraff [...] uchod, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau sector-benodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried rhai materion wrth gynnal asesiad effaith.

[8] Er enghraifft, gweler adran 94 y Ddeddf (sail resymol dros gredu bod amod wedi'i dorri neu ei fod yn mynd yn groes i amod).

[9] Er enghraifft, gallai hyn fod yn wir os ydym yn datrys anghydfod o dan adran 188 y Ddeddf (gweithdrefn ar gyfer datrys anghydfodau sy'n ymwneud â darparu Mynediad Rhwydwaith).

# 4. Datblygu'r asesiad effaith

**Byddwn yn parhau i ystyried ac adolygu effeithiau posibl drwy gydol prosiect a, lle bo'n briodol, yn diwygio ein hasesiad effaith wrth i'n ffordd o feddwl fynd rhagddi**

4.1 Mae asesiad o effaith yn broses o feddwl, ac yna rydym yn ei chyfuno ac yn ei chyflwyno i randdeiliaid yn ein hymgynghoriadau a'n datganiadau.

4.2 Mae'n broses iterus yn hytrach na llinol. Byddwn yn cynnal ein dadansoddiad yn ôl yr angen ar gyfer prosiect penodol. Efallai y byddwn yn dychwelyd at 'gamau' cynharach i ddadansoddi mwy ar faes penodol, adolygu ein syniadau wrth gyflwyno gwybodaeth newydd, datblygu syniadau ymhellach pan ddaw'n amlwg bod angen mwy o ddyfnder, ac yn y blaen.

4.3 Rydym yn defnyddio egwyddor cymesuredd wrth asesu effeithiau posibl; dylai dyfnder y dadansoddiad fod yn gymesur ag effaith bosibl y penderfyniad sy'n cael ei ystyried. Yn syml, po fwyaf neu fwy cymhleth yw'r effaith bosibl, y mwyaf fydd yr angen am asesiad effaith manylach. Mewn rhai achosion, efallai mai dim ond un opsiwn polisi realistig fydd ar gael, er enghraifft os yw cwmpas y cwestiwn polisi yn gul iawn, neu os yw deddfwriaeth yn cyfyngu ar ein pwerau yn y maes; mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n bosibl y bydd yr asesiad effaith yn llai eang.


4.4 Mae pedair elfen allweddol ynghlwm wrth asesu effaith debygol ein penderfyniadau:

a) deall mwy am y sefyllfa a chwmpas y prosiect;


b) archwilio posibiliadau a ffurfioli ein ffordd o feddwl;

c) asesu cynnig;

d) cyflwyno ein rhesymeg.



## Deall a chwmpasu




4.5 Yng ngham cyntaf y prosiectau, rydym yn ceisio deall y sefyllfa a pham ein bod yn ystyried ymyrryd. Yn benodol, byddwn yn ystyried pa ddyletswyddau cyfreithiol y gellid eu cyflawni, y math o randdeiliaid y gallai hyn effeithio arnynt a'r math o wybodaeth y gallai fod ei hangen arnom er mwyn deall y sefyllfa'n well.

4.6 Yn Ofcom rydym yn rheoleiddio nifer o sectorau, gyda phwerau a chyfrifoldebau amrywiol ym mhob un. Ar ben hynny, bydd y mathau o benderfyniadau a wnawn ar draws ac o fewn pob un o'r sectorau hyn hefyd yn amrywio'n sylweddol o ran maint a chwmpas. Mewn rhai achosion, gall deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i ni ymyrryd, er enghraifft cynnal adolygiad cyfnodol o farchnad neu weithredu deddfwriaeth newydd. Mewn achosion eraill, mae gennym ddisgresiwn ynghylch a ydym am ymyrryd ai peidio. Bydd y cyd-destun hwn yn llywio ein gwaith cwmpasu a'n syniadau dilynol.

4.7 Byddwn yn nodi pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ymyriad posibl. Gallai hyn gynnwys nodi is-grwpiau penodol, fel defnyddwyr agored i niwed, busnesau bach, neu a fydd polisi yn cael effeithiau gwahanol ar ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd trefol. Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd orau o wneud pobl yr effeithir arnynt yn ymwybodol o ymyriad posibl ac yn eu hannog i gymryd rhan yn ein proses ymgynghori.[10] Wrth wneud hynny, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol trafod cynnig gyda chymunedau a chyrff cynrychioladol mewnol ac allanol perthnasol.[11] Rydym yn trafod ein rhwymedigaethau yng nghyswllt asesu effaith penderfyniadau arfaethedig ar anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl yn fanylach yn Adran 5 isod.

4.8 Bydd y gwaith o ddeall a chwmpasu bob amser yn digwydd ar ddechrau prosiectau, ond gellir edrych eto hefyd os bydd gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg, os bydd y sefyllfa'n newid, neu os byddwn yn penderfynu bod angen rhagor o ymchwil i'n helpu i lunio cynnig.

4.9 Mewn rhai meysydd, mae'n bosib bod gennym eisoes ddealltwriaeth dda iawn o'r sefyllfa a dim ond ei nodi y mae angen i ni ei wneud. Mewn eraill, efallai y byddwn am gynllunio rhagor o ymchwil a gallai ein gwaith ar yr elfen hon fod yn fwy helaeth.

4.10 Efallai y byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i wella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd gennym yn barod, fel ymchwil i'r farchnad neu ddata cwynion. Efallai y byddwn yn penderfynu cynnal ymchwil newydd, fel comisiynu adroddiadau neu gynnal ein harolygon neu ein harbrofion ein hunain. Ac efallai y byddwn yn penderfynu casglu rhagor o wybodaeth gan randdeiliaid yn gynnar, boed hynny'n anffurfiol ai peidio, drwy alw am dystiolaeth, neu mewn rhai achosion, drwy ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth statudol.

---

[10] I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith, rydym hefyd yn annog pobl i gofrestru ar gyfer ein diweddariadau e-bost.

[11] Gall enghreifftiau o gyrff mewnol gynnwys ein Pwyllgorau Cynghori ar y Gwledydd, ein Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau.

4.11 Bydd ein proses o gasglu gwybodaeth yn gynnar yn dylanwadu ar y prosiect, ac efallai y byddwn yn penderfynu chwilio am wybodaeth newydd drwy gydol y prosiect.


**Enghreifftiau o brosiectau blaenorol:**

- Roeddem wedi defnyddio cais am dystiolaeth i lywio ein safbwynt ar ddefnyddio'r band 6GHz uchaf yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2023. Roedd ymatebion rhanddeiliaid yn tynnu sylw at nifer o wasanaethau a rhaglenni a fyddai'n elwa o ddefnyddio'r band. Roedd yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth, ochr yn ochr â phrosesau ymgysylltu eraill a'n dadansoddiad ein hunain, wedi cyfrannu at ein penderfyniad i ffafrio canlyniad "dim newid". Ymgynghorir ar wahân ar gynigion penodol ynghylch defnyddio'r band. [12]

4.12 Fel y nodir uchod, rydym yn disgwyl cynnal asesiadau effaith yng nghyswllt mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn ystyried ffurf briodol ar gyfer yr asesiad effaith yn gynnar yn y prosiect ac yn ailasesu fel y bo'n briodol.

**Byddwn yn dechrau meddwl am effaith bosibl polisi a sut byddwn yn asesu'r effaith honno yng nghamau cynnar prosiect**

## Archwilio posibiliadau




4.13 Pan fydd gennym ddealltwriaeth ddigonol o'r sefyllfa byddwn yn ystyried yr amcan(ion) yr hoffem eu cyflawni a'r dull gweithredu y gallem ei ddefnyddio.

4.14 Bydd hyn fel arfer yn golygu nodi ein hamcanion yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol perthnasol, deall y math o ymyriad polisi y gallem fod eisiau ei wneud, a nodi sut y gallai hyn effeithio ar ddefnyddwyr, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill.

4.15 Mewn rhai achosion mae amrywiaeth o ddulliau rheoleiddio ar gael i ni, gan gynnwys peidio â gweithredu a/neu barhau i fonitro'r sefyllfa. Lle bo'n briodol, byddwn yn ystyried manteision, costau a risgiau dulliau gwahanol i'n helpu i benderfynu ar ddull sy'n cael ei ffafrio. Mewn achosion eraill, deddfwriaeth (neu godau rheoleiddio eraill) sy'n pennu ein dull gweithredu. Bydd y dulliau priodol i'w harchwilio bob amser yn dibynnu ar gyd-destun y penderfyniad.

4.16 Dylem hefyd allu egluro sut y bydd dull yn arwain at ganlyniadau dymunol. Gall 'damcaniaeth newid' fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer hyn.[13] Mae'n bosibl y byddwn yn

---

[12] Update on the Upper 6 GHz band, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0028/248770/update-on-upper-6hz-band.pdf

[13] Gweler adran 2.2.1. o'r Llyfr Magenta: https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book

cyhoeddi'r gwaith hwn ar wahân, ond beth bynnag, bydd y dogfennau ymgynghori a'r datganiadau yn egluro sut rydym yn disgwyl i'n hymyriad gyflawni ein hamcanion.


4.17 Pan fyddwn yn credu ei fod yn ddefnyddiol, efallai y byddwn yn archwilio posibiliadau ac yn cynnal dadansoddiad manylach o ddull gweithredu penodol ar yr un pryd. Mae'r ddwy elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i'n helpu i benderfynu ar y dull gorau o gyflawni ein hamcanion. Efallai y byddwn hefyd yn dychwelyd at yr elfen hon os bydd y sefyllfa'n newid neu os bydd gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg.

4.18 Bydd ein ffordd o feddwl am ddulliau gweithredu posibl fel arfer yn arwain at ffafrio un dull neu fwy yn glir. Bydd y dull gweithredu rydym yn bwriadu ei fabwysiadu fel arfer yn gofyn am ddadansoddiad pellach, i'w gyflwyno yn ein hymgynghoriad a'n datganiad. Ni fyddwn yn asesu opsiynau sy'n amlwg yn anymarferol a byddwn yn neilltuo adnoddau ar gyfer yr asesiad effaith sy'n gymesur ag effaith ddisgwyliedig y prosiect.

**Efallai y byddwn yn defnyddio asesiadau eang o gostau, manteision a risgiau dulliau posibl i helpu i ddewis dull sy'n cael ei ffafrio.**

## Asesu cynnig

4.19 Pan fydd gennym ddealltwriaeth ddigonol o'r dulliau mwyaf ymarferol a fydd yn cyflawni ein hamcanion, byddwn yn ystyried a oes angen asesiad manylach o'r manteision, y costau a'r risgiau posibl ar gyfer rhai dulliau gweithredu, neu agweddau penodol ar ddulliau gweithredu.




4.20 Yn y paragraffau canlynol, rydym yn trafod y math o ddadansoddiad rydym yn disgwyl ei gynnal fel arfer fel rhan o asesiad manwl gan gynnwys (i) nodi sefyllfa wrthffeithiol; (ii) yr egwyddorion allweddol sy'n berthnasol i'n dadansoddiad; a (iii) sut rydym yn disgwyl monitro a gwerthuso dull gweithredu penodol. Mae'r math hwn o strwythur yn adnodd i helpu i lywio penderfyniadau rheoleiddio, nid yw'n eu disodli. Dylai'r math o asesiad a ddewisir fod yn gymesur ag effaith ddisgwyliedig y prosiect. Ar brosiectau mawr a chymhleth gyda mynediad at ddata ariannol gall hyn fod ar ffurf dadansoddiad cost a budd meintiol, ar brosiectau eraill gallai fod yn asesiad ansoddol yn unig.

4.21 Er enghraifft, ar gyfer penderfyniadau sy'n debygol o osod rhwymedigaethau sylweddol ar ein rhanddeiliaid neu a allai gael effaith sylweddol ar bob defnyddiwr, efallai y byddwn yn ystyried bod asesiad effaith manylach yn briodol. Fodd bynnag, ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â newid bach[14] neu un rhanddeiliad unigol,[15] efallai y byddwn yn ystyried bod asesiad effaith symlach yn ddigonol.

[14] Er enghraifft, efallai ein bod yn ymgynghori ar wneud newidiadau gweinyddol i sbectrwm neu drwyddedau darlledu nad oes angen i'r rheini sy'n dal trwyddedau weithredu arnynt neu nad ydynt yn newid unrhyw hawliau a rhwymedigaethau'r rheini sy'n dal trwyddedau yn sylweddol.

[15] Er enghraifft, efallai ein bod yn ymgynghori ynghylch rhoi pwerau i ddarparwr rhwydweithiau cyfathrebu electronig o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig a allai gael effaith ddaearyddol gyfyng.

4.22 Efallai y bydd yr asesiad pellach a wnawn yn cael ei ddefnyddio i lywio ein gwaith o archwilio posibiliadau, a/neu gallai fod yn rhan o'r rhesymeg a nodwyd gennym dros gynnig dull gweithredu penodol mewn ymgynghoriad neu ddatganiad.

## Nodi sefyllfa wrthffeithiol

4.23 Mae'n hanfodol nodi sefyllfa wrthffeithiol ar gyfer dadansoddi effaith, gan mai dim ond o'i gymharu â dewis amgen penodol y gellir asesu effaith ymyriad. Sefyllfa wrthffeithiol yw 'cyflwr y byd' arall heb y newid polisi sy'n cael ei ystyried. Mae'r sefyllfa wrthffeithiol yn waelodlin, gyda'r gwahaniaeth rhwng y sefyllfa wrthffeithiol a'r 'ffeithiol' (cyflwr y byd gan gynnwys yr opsiwn polisi) yn dangos effaith yr opsiwn hwnnw. Mae dyluniad y sefyllfa wrthffeithiol yn gofyn am farn broffesiynol.

4.24 Yn aml iawn, mae'r sefyllfa wrthffeithiol safonol yn sefyllfa 'gwneud dim' (a elwir hefyd yn 'Fusnes fel Arfer'). Mae'r dull sefyllfa 'gwneud dim' yn ystyried beth allai ddigwydd gyda'r sefyllfa bresennol pe na baem yn gweithredu. Gallai'r sefyllfa wrthffeithiol hon hefyd gynnwys tueddiadau presennol mawr neu newidiadau polisi disgwyliedig gan sefydliadau eraill sy'n debygol o effeithio ar y farchnad dan sylw dros gyfnod hwy.

4.25 Mewn rhai achosion, mae asesiadau effaith yn 'gynyddrannol', fel pan wnaethpwyd penderfyniad polisi gan y Llywodraeth, a dim ond effeithiau cynyddol unrhyw benderfyniadau a wnawn wrth weithredu'r polisi y mae angen eu hasesu. Ar gyfer asesiadau effaith o'r fath, efallai nad y sefyllfa wrthffeithiol briodol fydd y sefyllfa 'gwneud dim'. Yn yr achosion hyn, nid yw'r sefyllfa wrthffeithiol briodol yn 'gyflwr y byd' lle nad ydym yn ymyrryd, gan fod angen ymyrryd yn ôl y gyfraith. Yn hytrach, gall fod yn un lle y byddwn yn ymyrryd mewn ffordd fach iawn. Yn yr achos hwn, gellir asesu gwahanol opsiynau o ran sut y gallem weithredu polisi'r Llywodraeth ar sail eu heffeithiau.

## Egwyddorion allweddol

4.26 Wrth gynnal ein dadansoddiad, byddwn fel arfer yn ystyried yr egwyddorion allweddol a nodir isod. Bydd y ffurf a'r manylder y byddwn yn gwneud hynny yn dibynnu ar natur y cynnig polisi a'r hyn rydym yn ei ystyried yn gymesur yn yr amgylchiadau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ein bod yn gyffredinol yn disgwyl:

a) canolbwyntio ar y costau a'r manteision mwyaf sylweddol a pheidio â threulio gormod o amser yn ystyried costau a manteision sy'n gymharol fach;

b) cynnwys y costau a'r manteision mwyaf sylweddol p'un ai a ellir eu mesur ai peidio;

c) mesur effeithiau lle mae'n bosibl ac yn gymesur gwneud hynny, gan gydnabod y gallai effeithiau nad ydynt yn rhai ariannol ac nad oes modd eu mesur ddwyn pwysau mawr mewn penderfyniadau polisi;

d) cyn belled ag y bo modd, nodi'n glir pwy sy'n ysgwyddo'r costau a phwy sy'n cael y manteision, gan gynnwys y rheini sy'n deillio o'r effeithiau ar fuddiannau grwpiau neu is-grwpiau penodol o randdeiliaid;

e) cynnwys costau gweithredu i Ofcom i'r graddau y gallant arwain at ffioedd gweinyddol uwch i randdeiliaid;

f) nodi ac esbonio tybiaethau ac ansicrwydd mawr;

g) dim ond ystyried y costau a'r buddion hynny a fyddai'n rhesymol eu hysgwyddo oherwydd bod polisi'n cael ei weithredu (yn hytrach na'r costau a'r buddion a fyddai'n codi beth bynnag);

h) nodi ac ystyried cost cydymffurfio â rheoliadau e.e. darparu gwybodaeth reoleiddiol neu fabwysiadu gofynion technegol newydd, os yw'n bosibl;

i) pan fo'n berthnasol, ystyried polisïau eraill a allai effeithio ar ganlyniad ein gweithredoedd, a allai fod yn bolisïau eraill Ofcom neu'n weithredoedd disgwyliedig gan lywodraeth neu gorff arall;

j) ystyried beth yw'r prif risgiau a'r sgil-effeithiau yn ein polisïau, a sut y gellir eu lliniaru, gan nodi ei bod yn anymarferol ceisio nodi pob risg neu sgil-effeithiau anfwriadol posibl.

4.27 Wrth gynnal asesiadau effaith, efallai y byddwn yn cyfeirio at ganllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan sefydliadau eraill i gael eglurhad o dechnegau penodol lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau Gwyrdd a Magenta Trysorlys EM[16], adolygiad y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio o asesiadau effaith[17], a chanllawiau asesu effaith Cystadleuaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.[18]

**Enghreifftiau o feysydd i'w hystyried:**

- **Ymddygiad**: technegau mewnwelediadau ymddygiadol neu adnoddau eraill i ystyried sut y gall ymddygiad defnyddwyr neu randdeiliaid effeithio ar effaith polisi;
- **Cystadleuaeth**: lle bo'n briodol byddwn yn ystyried effaith debygol y polisi ar gystadleuaeth yn y farchnad;
- **Effaith ar fusnesau**: lle bo'n berthnasol byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn deall y modelau busnes sy'n gweithredu mewn marchnad ac yn ystyried effaith ein polisi ar gyfranogwyr ledled y diwydiant. Byddwn yn ystyried yn benodol sut y gallai'r polisi effeithio ar allu a chymhellion cwmnïau i wneud buddsoddiadau effeithlon wrth ddarparu gwasanaethau.

4.28 Byddwn hefyd yn asesu effeithiau posibl ymyriad arfaethedig ar grwpiau penodol o bobl, a'r iaith Gymraeg, fel y trafodir yn Adran 5 isod.

[16] https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-governent/the-green-book-2020
[17] https://www.gov.uk/government/publications/impact-assessments-room-for-improvement
[18] https://www.gov.uk/government/publications/competition-impact-assessment-guidelines-for-policymakers

## Monitro a gwerthuso

4.29 Dylai'r asesiad o ymyriad arfaethedig hefyd ystyried ein dull o fonitro a gwerthuso'r polisi. Pan ystyrir bod hynny'n briodol, byddwn yn monitro ac yn gwerthuso canlyniad gwirioneddol polisi mewn ffordd gymesur. Gall hyn fod drwy ein rhaglen barhaus i fonitro sectorau, rhaglenni ymchwil presennol, neu drwy waith gwerthuso wedi'i dargedu'n ddiweddarach. Gan ddibynnu ar natur ymyriad rheoleiddiol, efallai y byddwn hefyd yn ystyried ei bod yn briodol meddwl am ei effaith ehangach, er enghraifft, ar draws marchnad gyfan


4.30 Mae gwerthuso'n gwella ein proses o lunio polisïau drwy ganiatáu i ni weld pan nad yw pethau wedi gweithio'n unol â'r disgwyl a dysgu o'r achosion hyn. Mae asesu a gwerthuso effaith yn brosesau ategol, gyda phob un yn helpu i wella'r llall: mae'r gwersi a ddysgir o'r gwerthusiadau yn gwella ein dull o asesu effaith, ac mae asesiadau effaith da yn ein helpu i werthuso effeithiau polisïau'n fwy cadarn ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.

4.31 Ar ben hynny, mae gennym ddyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i barhau i adolygu ein gwaith i sicrhau nad ydym yn cyflwyno nac yn cynnal rheoliadau diangen o feichus.

4.32 Ar gyfer newidiadau polisi mwy, efallai y byddwn yn ystyried beth fyddai ei angen ar gyfer gwerthusiad damcaniaethol terfyn rhaglen. Ni fyddwn yn cynnal gwerthusiad terfyn rhaglen o bob polisi, ond os byddwn yn penderfynu ei fod yn briodol, yna mae ein safbwyntiau gwreiddiol ar yr amserlen, y fethodoleg a'r gofynion data yn fan cychwyn defnyddiol.

**Gall asesiad cymesur o gynnig ddefnyddio technegau ansoddol a meintiol, a dylai ystyried monitro a gwerthuso.**

## Cyflwyno ein rhesymu




4.33 Pan fyddwn yn fodlon ein bod wedi asesu effaith un dull neu ragor yn ddigonol, byddwn yn penderfynu pa ddull (neu ddulliau) i'w cyflwyno fel cynnig (neu gynigion) mewn dogfen ymgynghori. Bydd yr ymgynghoriad yn crynhoi'r effaith rydym yn disgwyl i'n cynnig(cynigion) ei chael. Mewn geiriau eraill, mae asesiad effaith yn adnodd i'n helpu i benderfynu ar ddull gweithredu, ac yn is-set o'n ffordd o feddwl sy'n crynhoi ein rhesymeg ac y mae'n rhaid i ni ei chyflwyno i randdeiliaid yn ein hymgynghoriadau.

4.34 Bydd y ffurf yr ydym yn cyflwyno ein hasesiad effaith yn amrywio gan ddibynnu ar y sefyllfa, fel y trafodir yn Adran 2 uchod.

4.35 Weithiau gellir cymryd strwythur yr asesiad effaith o ddeddfwriaeth, ac mae'r ffactorau i'w hasesu wedi'u nodi yn y gyfraith. Fel arall, byddwn yn ystyried ffurf a manylion priodol

asesiad fesul achos. Byddwn hefyd yn egluro'n gyffredinol sut rydym wedi mynd ati i asesu'r effaith yn ein hymgynghoriad er mwyn i randdeiliaid allu rhoi sylwadau ar hyn fel rhan o'u hymateb.

4.36 Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yna'n cyflwyno ein penderfyniad terfynol mewn datganiad yn dilyn yr ymgynghoriad a fydd yn egluro ein rhesymau, gan gynnwys unrhyw addasiadau rydym wedi'u gwneud i'n hasesiad o effaith.

**Enghreifftiau o brosiectau blaenorol:**

- Roedd yr ymgynghoriad ar egluro rhifau ffôn symudol yn rhoi esboniad clir, ansoddol o effaith y newid yn rhifau ystod 07x.[19] Mae'r is-deitl "Effaith yr addasiad arfaethedig" yn darparu gwasanaeth cyfeirio. "Ni fydd y mwyafrif helaeth o ddefnyddiau...yn cael eu heffeithio" yn enghraifft o eglurder heb feintioli. Mae'r adran yn crynhoi'r wybodaeth fanwl drwy gydol y ddogfen ac yn egluro pam ein bod o'r farn y byddai'r manteision yn drech na'r costau.

Byddwn yn cyflwyno ein rhesymau'n glir yn ein hymgynghoriadau a'n datganiadau er mwyn i randdeiliaid allu ymateb i'n hasesiad o'r effeithiau posibl

[19] 4.13-4.18 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0015/107601/consultation-clarifying-mobile-numbers.pdf, https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/modification-national-telephone-numbering

# 5. Dyletswyddau statudol eraill i asesu effeithiau

5.1 Mae Ofcom wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn fewnol a drwy'r penderfyniadau polisi rydym yn eu gwneud. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod ein polisïau'n gynhwysol i bawb drwy ystyried unrhyw effeithiau ar grwpiau penodol o bobl. Caiff yr ymrwymiad hwn ei adlewyrchu yn ein rhwymedigaethau statudol yn ogystal â'n strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant.[20]

5.2 Yn benodol, ac yn ogystal ag ystyried effaith gyffredinol cynnig ar ein rhanddeiliaid, defnyddwyr a dinasyddion, byddwn yn ystyried y canlynol wrth lunio cynigion polisi:

a) ein rhwymedigaethau cydraddoldeb o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 gan gynnwys effeithiau posibl ar y grwpiau o bobl a nodir yn yr adrannau hynny fel rhai sydd â nodweddion gwarchodedig;

b) effeithiau posibl ar anghenion a buddiannau grwpiau o bobl a nodir yn adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;

c) lle cysylltir â Safonau'r Gymraeg, effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Effeithiau ar gydraddoldeb

5.3 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

5.4 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.[21]

5.5 Er mwyn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, byddwn yn asesu effaith bosibl cynnig polisi ar bobl sy'n rhannu nodweddion

[20] https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/corporate-responsibility/diversity-and-equality
[21] https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/northern-ireland

gwarchodedig ac yn benodol a ydynt yn gallu gwahaniaethu yn erbyn pobl o’r fath neu effaith ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

## Effaith ar anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl

5.6 Yn ogystal â’n dyletswyddau cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus, mae adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn ystyried anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, gan gynnwys:

a) pa mor agored i niwed yw plant ac eraill y mae’n ymddangos i ni fod eu hamgylchiadau yn golygu bod angen eu hamddiffyn yn arbennig;

b) anghenion pobl hŷn, pobl ag anableddau, a phobl ar incwm isel;

c) y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o’r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

5.7 Byddwn yn asesu effaith bosibl cynnig polisi ar anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl a nodir yn adran 3(4) y Ddeddf Cyfathrebiadau.

5.8 Byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau posibl ar bobl a nodir yn adran 149 o Ddeddf 2010, adran 75 o Ddeddf 1998 ac adran 3(4) o Ddeddf 2003 yn ystod camau cynnar prosiect ac yn ymrwymo i gynnal ymchwil marchnad i gael barn pobl neu gymunedau penodol a allai, yn ein barn ni, gael eu heffeithio’n benodol.

5.9 Pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yng nghyswllt cynnig polisi, byddwn hefyd yn crynhoi ein casgliadau cychwynnol yng nghyswllt effeithiau posibl ein cynnig ar grwpiau penodol o bobl neu gymunedau. Byddwn yn gwahodd safbwyntiau ar y casgliadau cychwynnol hynny ac yn ystyried yr holl ymatebion i’r ymgynghoriad cyn gwneud ein penderfyniad.

5.10 Mewn rhai achosion, efallai na fyddwn yn ystyried bod gan gynnig unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb neu effeithiau gwahanol ar grwpiau penodol o bobl. Mewn llawer o achosion, efallai na fyddwn wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol ond efallai ein bod wedi nodi effeithiau cadarnhaol amrywiol.  Mewn achosion lle rydym wedi nodi effeithiau niweidiol posibl, byddwn yn ceisio dileu neu liniaru’r effeithiau hynny, i’r graddau y mae’n ymarferol ac yn gymesur gwneud hynny.

5.11 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein prosesau ymgynghori mor agored a chynhwysol â phosibl er mwyn i grwpiau gwahanol o bobl gael cyfle i rannu eu barn am unrhyw newidiadau rydym yn eu cynnig cyn i ni wneud penderfyniad.

## Effeithiau ar yr Iaith Gymraeg

5.12 Mae statws swyddogol i’r Gymraeg yng Nghymru.[22] Er mwyn gweithredu hyn, mae’n ofynnol i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau’r Gymraeg yng

[22] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

nghyswllt defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

5.13 Mae'r safonau a roddwyd i Ofcom wedi'u rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017[1]https://ukc-word-edit.officeapps.live.com/we/wordeditorframe.aspx?ui=en-US&rs=en-GB&wopisrc=https://ofcomuk.sharepoint.com/teams/econ/_vti_bin/wopi.ashx/files/51da208f97c14722b9d0faccb72d4c3e&wdlor=c95621E7D-4C30-43A2-A8DB-7D2165FEC96A&wdenableroaming=1&mscc=1&hid=F4BB8348-21AB-4B60-A984-CF873E04B4DA&wdorigin=Outlook-Body&wdhostclicktime=1669393246878&jsapi=1&jsapiver=v1&newsession=1&corrid=cd137e54-9382-41c6-b6d3-3cbb1732fa5b&usid=cd137e54-9382-41c6-b6d3-3cbb1732fa5b&sftc=1&cac=1&mtf=1&sfp=1&instantedit=1&wopicomplete=1&wdredirectionreason=Unified_SingleFlush&rct=Medium&ctp=LeastProtected - _ftn1 ac maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys ein cynigion polisi.[23]

5.14 Byddwn yn ystyried a yw Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnwys wrth lunio cynigion polisi sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ar draws y DU).

5.15 Pan fydd Safonau'r Gymraeg yn cael eu gweithredu, byddwn yn ystyried effaith bosibl cynnig polisi ar (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn ystyried sut y gellid ei lunio er mwyn cael, neu gynyddu, effaith gadarnhaol, neu beidio â chael, effeithiau andwyol neu er mwyn lleihau unrhyw effeithiau andwyol. Wrth ymgynghori ar y cynnig polisi, byddwn yn gwahodd safbwyntiau ar y materion hyn a bydd yr ymatebion a gawn yn cael eu hystyried wrth ddod i'n penderfyniad terfynol.

[23] Gweler, yn benodol, Safonau 84 – 93. Yn ogystal â chynigion polisi, gellir defnyddio Safonau'r Gymraeg hefyd pan fydd Ofcom yn cynnal ymchwil i'r farchnad neu weithgareddau cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn y Gymraeg ar gael ar ein gwefan.